



# Cod Ymarfer Cynllunio

Sut yr ydym yn delio â cheisiadau cynllunio a materion cynllunio eraill

## Cyflwyniad

Mae'r system Gynllunio'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â defnyddio a datblygu tir er mwyn budd cyhoeddus yn ehangach gan ystyried y Cynllun Datblygu, Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol ac ystyriaethau perthnasol eraill. Mae cynllunio'n gallu bod yn ddadleuol gan fod ei benderfyniadau'n effeithio ar fywydau bob dydd unigolion, perchnogion tir a datblygwyr.

Felly mae'n bwysig bod y broses yn agored a thryloyw. Hynny yw, dylai'r system nid yn unig fod yn deg ond dylai ymddangos yn deg. Yn adroddiad Pwyllgor Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r materion hyn ac mae ei argymhellion yn cael lle amlwg yng nghanllawiau diwygiedig Cymdeithas Llywodraeth Leol 2002 i Aelodau a Swyddogion wrth ddelio â materion cynllunio. Cynghorir Aelodau i ddarllen canllawiau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol gan eu bod yn cynnwys cefndir defnyddiol i'r Cod Ymarfer.

Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi canllawiau i Aelodau etholedig, swyddogion a datblygwyr ynglŷn â'r broses gynllunio. Mae'n ategol i Godau Ymddygiad Aelodau a Swyddogion Sir y Fflint a'r Protocol ar y berthynas rhwng Aelodau a swyddogion, sydd oll wedi eu cynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Tra bod a wnelo'r egwyddorion sydd yn y ddogfen hon yn bennaf â'r ffordd y dylid delio â cheisiadau cynllunio unigol, maent hefyd yn berthnasol i'r broses gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw agwedd o'r swyddogaeth gynllunio.

# Cynnwys

1. - Rôl Aelodau a Swyddogion
  - 1.1. - Cyffredinol
  - 1.2. - Rôl Swyddogion
  - 1.3. - Rôl Aelodau
  - 1.4. - Cyswllt Aelod / Swyddog
2. - Hyfforddiant
3. - Cofrestru a Datgan Cysylltiad
  - 3.1. - Cod Ymddygiad
  - 3.2. - Cysylltiadau Personol
  - 3.3. - Datgan
  - 3.4. - Cyn penderfynu
  - 3.5. - Cofrestr
  - 3.6. - Aelodaeth Ddeuol Cymuned / Cyngor Tref
4. - Lobïo
5. - Ceisiadau a Gyflwynwyd gan Aelodau a Swyddogion
6. - Ceisiadau a Gyflwynwyd gan y Cyngor
7. - Trafodaethau Cyn Ymgeisio a Gorfodi
8. - Ymweliadau Safle y Pwyllgor Cynllunio
  - 8.1 - Pwrpas
  - 8.2 - Cais am Ymweliad Safle
  - 8.3 - Trefn a Sut i Gynnal Ymweliad Safle
9. - Y Drefn mewn Pwyllgor Cynllunio
10. - Penderfyniadau sy'n Groes i Argymhellion Swyddogion
11. - Apeliadau yn Erbyn Penderfyniadau'r Cyngor
12. - Rhwymedigaethau Cynllunio
13. - Adolygu Penderfyniadau'n Rheolaidd
14. - Cwynion

# 1. Rôl Aelodau a Swyddogion

## 1.1 Cyffredinol

**1.1.1** - Mae gan aelodau a swyddogion rolau gwahanol ond sy'n cyd-fynd â'i gilydd. Mae'r naill a'r llall yn gwasanaethu'r cyhoedd ond mae Aelodau'n atebol i'r etholwyr, tra bod swyddogion yn atebol i'r Cyngor yn gyffredinol. Mae swyddogion yn cynghori'r Aelodau ac mae'r Cyngor yn cyflawni gwaith y Cyngor. Maent yn cael eu cyflogi gan y Cyngor, nid Aelodau unigol, a dim ond drwy benderfyniad y Cyngor, ei Gabinet neu Bwyllgor y gellir rhoi cyfarwyddiadau i Aelodau.

**1.1.2** - Mae'n bwysig bod perthynas dda rhwng Aelodau a swyddogion a'i bod yn seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng y naill a'r llall a dealltwriaeth o ddyletswyddau ei gilydd. Ni ddylid byth amharu ar y berthynas a'r ymddiriedaeth hon, na'i chamddefnyddio.

## 1.2 Rôl Swyddogion

**1.2.1** – Swyddogaeth swyddogion yw cynghori a chynorthwyo Aelodau i lunio polisiau cynllunio, penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio, a phenderfynu a ddylid cymryd camau gorfodi ai peidio.

Mewn achosion o dorri rheolau cynllunio dylai swyddogion:-

- Gynnig cyngor diduedd a phroffesiynol
- Sicrhau bod yr holl wybodaeth gywir sydd ei hangen ar gyfer gwneud y penderfyniad yn cael ei rhoi.
- Rhoi dadansoddiad clir a chywir o'r materion.
- Gosod ceisiadau a materion gorfodi yn erbyn y polisiau ehangach y Cynllun Datblygu a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill.
- Rhoi argymhelliad clir yn seiliedig ar y gofynion uchod.
- Gweithredu'r penderfyniadau a wnaed gan Aelodau mewn pwyllgor neu drwy awdurdod wedi'i ddirprwyo gan Brif Swyddog, Cynllunio ac Amgylchedd
- Diweddarau Aelodau ynglŷn â deddfwriaeth a chyfarwyddwyd newydd.
- Darparu hyfforddiant a chyfarfodydd briffio priodol i Aelodau.

## 1.3 Rôl Aelodau

**1.3.1** – Mae'r Cyngor llawn yn gyfrifol am osod fframwaith polisi cynllunio ffurfiol y Cyngor drwy'r Cynllun(iau) Datblygu. Fel egwyddor gyffredinol mae disgwyl i Aelodau gynnal polisiau cynllunio'r Cyngor.

**1.3.2** – Pan fydd Aelodau'n dod i benderfyniad rhaid iddynt:-

- Fod yn glir ynghylch a oes ganddynt gysylltiad ai peidio y mae angen ei ddatgan os na wnaed hynny eisoes.
- Gweithredu'n deg ac agored.
- Edrych ar bob cais cynllunio gyda meddwl agored,.
- Pwysu a mesur yn ofalus yr holl faterion perthnasol.
- Gwneud penderfyniad ynghylch bob cais ar sail ei rinweddau ei hun.
- Osgoi rhoi'r argraff fod yr Aelod wedi gwneud ei feddwl / meddwl cyn i'r cais gael ei benderfynu.
- Sicrhau bod rhesymau clir a da dros eu penderfyniadau, a bod y rhesymau hynny'n cael eu datgan yn glir.

**1.3.3** – Pan fo cais cynllunio'n ymwneud â ward Aelod mae safbwyntiau'r Aelod lleol yn bwysig i Brif Swyddog, Cynllunio ac Amgylchedd ac i'r Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio. Ni ddylai Aelodau wardiau greu cysylltiad rhy agos â grwpiau diddordeb arbennig os ydynt yn dymuno pleidleisio yn y Pwyllgor Cynllunio. Tra bod gan Aelodau gyfrifoldeb tuag at eu hetholwyr, mae eu prif ddyletswydd tuag at y Sir gyfan, ac felly mae angen ystyried datblygiadau arfaethedig er budd y gymuned ehangach.

**1.3.4** – Ni ddylai Aelodau benderfynu sut i bleidleisio ar unrhyw gais mewn unrhyw gyfarfod ffurfiol o grŵp gwleidyddol. Ni ddylai cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol fyth ddweud sut dylai Aelodau bleidleisio ar fater cynllunio.

## **1.4 Cyswllt Aelod / Swyddog**

**1.4.1** – Mae'r berthynas rhwng swyddogion ac Aelodau'n hynod o bwysig i sicrhau penderfyniadau da a gwasanaeth cynllunio effeithiol. Mae deall rolau ei gilydd a dangos parch tuag at ddyletswyddau ei gilydd yn hollbwysig i sicrhau perthnasoedd da.

**1.4.2** - I wneud ymholiadau am geisiadau unigol dylai Aelodau gysylltu â'r Swyddog Achos neu'r Rheolwr Llinell ac yn ddelfrydol dylai wneud apwyntiad. Gan fod yr holl swyddogion cynllunio'n gweithio mewn ffordd hyblyg ac yn gorfod ymweld â safleoedd, mae'n hynod o debygol na fyddant ar gael yn Neuadd y Sir pe bai aelod yn galw heibio heb drefnu ymlaen llaw. Tra bydd Aelodau efallai'n dymuno'n gofyn am gyngor neu wybodaeth i Brif Swyddog, Cynllunio ac Amgylchedd neu'r Rheolwr Datblygu, dylai Aelodau yn y lle cyntaf, ofyn i'r Swyddog Achos am wybodaeth. Gellir holi a derbyn gwybodaeth drwy e-bost.

**1.4.3** - Bydd swyddogion yn cynnig pob cymorth rhesymol i Aelodau gyflawni eu dyletswyddau. Weithiau mae cyfarfodydd rhwng swyddogion ac Aelodau'n gallu bod o gymorth. Mae hynny ond yn debygol os oes trefniadau wedi'u gwneud ymlaen llaw gan ei fod yn rhoi cyfle i'r swyddog sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael yn y cyfarfod. Gellir gwneud trefniadau ymlaen llaw drwy ffonio neu e-bostio'r swyddog perthnasol. Dylid neilltuo ystafell gyfarfod er mwyn cael amgylchedd cyfforddus a phreifat i'r aelod a'r swyddog gynnal eu cyfarfod. Mae'r

swyddfa gynllunio bellach mewn un ystafell fach yn Neuadd y Sir. Nid oes digon o le i gynnal cyfarfodydd yn y swyddfa gynllunio heb darfu'n sylweddol ar swyddogion eraill, ac nid yw'n breifat. Am y rhesymau hyn ni ddylai Aelodau fynd yn syth i'r swyddfa gynllunio i drafod materion gyda swyddogion. Os yw Aelod yn dymuno cysylltu â swyddog i drefnu cyfarfod ar fyr rybudd, tra eu bod yn Neuadd y Sir, dylai ofyn i wasanaethau pwyllgor neilltuo un o'r ystafelloedd cyfarfod. Yna gall y swyddog ddod i lawr i gyfarfod yr Aelod. Os nad yw'r swyddog ar gael bydd swyddog arall yn gwneud ei (g)orau i helpu.

**1.4.4** – Cydnabyddir y gallai safbwynt Aelodau a swyddogion ynglŷn â chais fod yn wahanol ond ni ddylai Aelodau ar unrhyw gyfrif amharu neu roi pwysau ar swyddogion i wneud argymhelliad penodol.

## **2. Hyfforddiant**

**2.1** – Rhaid i bob Aelod o'r Cyngor gael hyfforddiant cynllunio craidd ar bolisiâu, gweithdrefnau a chyfraith cynllunio a'r Cod hwn.

**2.2** – Trefnir hyfforddiant arall gan swyddogion mewn ymgynghoriad ag Aelodau drwy sesiynau ychwanegol, seminarau a gweithdai ar faterion amserol ac i sicrhau bod Aelodau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am weithdrefnau, cyngor a chanllawiau newydd.

**2.3** – Rhwng etholiadau arferol y Cyngor Sir, rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio bob amser fynychu o leiaf 75% o'r pynciau hyfforddiant ym maes cynllunio y rhoddir sylw iddynt yn ystod y cyfnod y maent yn aelodau o'r Pwyllgor.

**2.4** – Bydd presenoldeb yn yr hyfforddiant cynllunio'n cael ei fonitro a'i adrodd i'r Grŵp Strategol Cynllunio. Gall y grŵp hwn ganiatáu eithriad i ofynion paragraff 3.3. os oes rheswm da fod Aelod yn methu â bodloni'r gofyniad hwn dros dro.

## **3. Cofrestru a Datgan Cysylltiad**

### **3.1 - Cod Ymddygiad**

**3.1.1** - Dylai Aelodau gadw'n ofalus at **God Ymddygiad Aelodau**'r Cyngor Sir mewn perthynas â chofrestru a datgan cysylltiad ac, os caiff cysylltiad ei ddatgan, wrth benderfynu a ddylai Aelod fod yn bresennol wrth ystyried cais. Nid yn unig dylid osgoi amhriodoldeb ond hefyd unrhyw ymddangosiad neu sail i amheuaeth o ymddygiad amhriodol. Os yw Aelod yn ystyried bod ganddo/ganddi gysylltiad personol dylai ymgynghori â'r Swyddog Monitro neu Uwch Swyddog o'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gael cyngor ynghylch eu sefyllfa, yn ddelfrydol cyn y cyfarfod.

## **3.2. Cysylltiadau Personol**

**3.2.1** – Dylai'r egwyddorion sy'n ymwneud â datgan cysylltiad fod yn berthnasol, nid yn unig i gyfarfodydd ffurfiol, ond hefyd wrth i Aelod ymwneud mewn unrhyw ffordd â swyddogion y Cyngor, neu gydag Aelodau eraill. Os oes gan Aelod gysylltiad personol, fel y diffinnir gan y Cod, rhaid ei ddatgan bob amser. Nid yw'n golygu o reidrwydd fod yr Aelod yn cael ei (g)wahardd rhag bod yn rhan o'r drafodaeth. Yr Aelod sy'n gyfrifol am ddatgan cysylltiad, ond mae'r Swyddog Monitro ar gael i gynghori. Os oes unrhyw amheuaeth ym meddwl Aelod, dylai ef/hi ofyn am gyngor mewn da bryd gan y Swyddog Monitro neu Swyddog Uwch arall o'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ynglŷn â'u sefyllfa. Dylai Aelodau ystyried datgan cysylltiad pan nad ydynt yn siŵr.

**3.2.2** – Dylai Aelodau sydd â nifer fawr o eiddo, cysylltiadau proffesiynol neu eraill sy'n ymwneud â'r swyddogaeth gynllunio a fyddai'n eu hatal rhag pleidleisio'n rheolaidd, osgoi bod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.

**3.2.3** – Os yw Aelod Lleol wedi penderfynu fod ganddo /ganddi gysylltiad personol sy'n golygu ei bod yn amhriodol i'r Aelod hwnnw neu honno fod yn rhan o brosesu a phenderfynu ar gais cynllunio yn ei ward ef/hi, gall yr Aelod dan sylw drefnu bod Aelod arall yn gweithredu fel Aelod Lleol yn ei le/lle i gynrychioli barn yr etholaeth. Mewn sefyllfa o'r fath dylai'r Aelod Lleol hysbysu'r Swyddog Monitro a Phrif Swyddog, Cynllunio a'r Amgylchedd o'r trefniant a wnaed ac ni ddylai gymryd rhan bellach yn y gwaith o brosesu a phenderfynu ar y cais cynllunio ar wahân i gyfeirio unrhyw sylwadau a dderbyniwyd i'r Aelod sy'n gweithredu fel Aelod Lleol.

## **3.3. Datgan**

**3.3.1** – Wrth ddatgan cysylltiad mewn pwyllgor, dylid gwneud hyn ar ddechrau'r cyfarfod. Dylai Aelodau ddweud yn glir a phenodol pa eitem ar y rhaglen y mae ganddynt gysylltiad ynddi, a beth yw natur y cysylltiad hwnnw.

## **3.4. Penderfynu Ymlaen Llaw**

**3.4.1** – Mae Aelod yn penderfynu ymlaen llaw ynglŷn â chais cynllunio os yw'r Aelod yn dangos (e.e. yn y wasg leol) ei fod ef/hi wedi penderfynu ar rinweddau'r cais cyn iddo gael ei ystyried yn y pwyllgor. Penderfyniad ymlaen llaw yw pan fo Aelod yn rhagdueddu neu'n arddel safbwynt ymlaen llaw ynglŷn â rhinweddau'r cais.

**3.4.2** Ni ddylai Aelod sydd wedi penderfynu ymlaen llaw ynglŷn â rhinweddau cais cynllunio cyn iddo gael ei ystyried mewn pwyllgor fod yn Aelod o'r pwyllgor sy'n ystyried y cais. Gall Aelod o Bwyllgor fod â rhagdueddiad neu safbwynt ymlaen llaw. Os oes amheuaeth dylai Aelod o'r Pwyllgor ofyn am gyngor cyn i'r pwyllgor gyfarfod naill ai gan y Swyddog Monitro neu'r Cyfreithiwr sy'n mynychu cyfarfodydd y pwyllgor.

**3.4.3** – Gall yr Aelodau hynny nad ydynt ar y Pwyllgor Cynllunio benderfynu beth yw eu safbwynt ynglŷn â chais ond dylid parchu'r ffaith na all Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wneud yr un peth.

### **3.5. Cofrestr**

**3.5.1** – Cedwir cofrestr o gysylltiadau Aelodau gan Swyddog Monitro'r Cyngor. Mae ar gael i'r cyhoedd ei gweld. Mae pob Aelod yn gyfrifol am roi'r manylion ysgrifenedig diweddaraf am unrhyw gysylltiadau perthnasol i'r Swyddog Monitro.

### **3.6. Aelodaeth Ddeuol Cyngor Cymuned / Tref a Sir**

**3.6.1** – Nid yw Aelod o Gyngor Tref / Cymuned sydd wedi mynegi barn am fater cynllunio yn golygu ynddo'i hun na all yr Aelod gymryd rhan mewn penderfyniad ynglŷn â'r mater pan ddaw gerbron y Pwyllgor Cynllunio ar yr amod bod yr Aelod wedi cadw meddwl agored ac nad yw wedi ymrwymo i safbwynt terfynol nes bod y dadleuon o blaid ac yn erbyn wedi eu gwyntyllu mewn pwyllgor. Gall yr Aelod gymryd rhan mewn trafodaeth a gofyn cwestiynau, ond dylai nodi'n glir fod y safbwynt o blaid neu yn erbyn cais yn seiliedig ar wybodaeth sy'n hysbys ar y pryd.

**3.6.2** – Pan fo cais a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned neu Dref yn cael ei ystyried yna ni all Aelod o'r Cyngor hwnnw bleidleisio ar y cais i wneud penderfyniad oni bai bod yr Aelod wedi cael hawl gan y Pwyllgor Safonau.

## **4. Lobïo**

**4.1** – Mae lobïo yn rhan o'r broses wleidyddol ac mae'n eithaf cyffredin i Ymgeisydd neu bartïon eraill â diddordeb ddymuno trafod datblygiad arfaethedig gydag Aelodau cyn i benderfyniad gael ei wneud ynglŷn â chais cynllunio. Gall hyn helpu Aelodau i ddeall y materion a'r pryderon sy'n gysylltiedig â chais. Dylai swyddogion fod yn ymwybodol o unrhyw ohebiaeth lobïo y mae Aelodau'n ei derbyn.

**4.2** - Fodd bynnag, mae Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wedi ymrwymo i wneud penderfyniad ynglŷn â materion ar sail eu rhinweddau. Mae hyn yn golygu na ddylent gael safbwynt pendant ar fater cynllunio cyn derbyn a darllen adroddiad y swyddog neu dderbyn unrhyw wybodaeth newydd a adroddir i'r pwyllgor. Tra gall Aelodau'r pwyllgor lunio barn neu safbwynt cychwynnol, a dangos eu safbwynt bod cais yn groes i bolisi, ni ddylent ddatgan yn agored pa ffordd y maent yn bwriadu pleidleisio ymlaen llaw cyn cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Cynllunio. Rhag amharu ar eu dyletswydd cyn iddynt dderbyn yr holl wybodaeth berthnasol, cynghorir Aelodau'r pwyllgor i,-



- **Gyfeirio** ymgeiswyr / datblygwyr sy'n dod atynt i gael cyngor cynllunio neu weithredol at y Swyddog Cynllunio priodol.
- **Osgoi** dweud ymlaen llaw a ydynt yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cais.
- **Osgoi** ymgyrchu'n weithgar i gefnogi canlyniad penodol.
- **Cyfeirio** lobïwyr neu wrthwynebwyr at y Swyddog Cynllunio priodol, a fydd yn cynnwys cyfeiriad at eu safbwyntiau lle y bo'n berthnasol yn eu hadroddiad.

**4.3** – Dylai Aelodau ddatgan yn y rhan briodol o gyfarfod y pwyllgor unrhyw gyswllt o bys gydag ymgeiswyr a gwrthwynebwyr. Cyswllt o bwys yw pan fo ymgeisydd neu'r un gwrthwynebydd (naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig) wedi cysylltu â'r Aelod bedair gwaith neu fwy.

**4.4** – Rhaid i Aelodau hysbysu'r Aelod Ward fel mater o gwrteisi mewn achosion lle maent yn ceisio bod yn rhan o gais datblygu neu fater gorfodaeth y tu allan i'w Ward eu hunain. Os yw cais cynllunio'n cael effaith sylweddol ar ward arall derbynnir bod hawl gan yr Aelod/Aelodau'r ward honno gymryd rhan yn y cais datblygu.

**4.5** - Rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio osgoi trefnu cefnogaeth o blaid neu yn erbyn cais cynllunio. Os yw Aelod yn trefnu cefnogaeth o blaid neu yn erbyn cais cynllunio rhaid i'r Aelod hwnnw neu honno sefyll i lawr o'r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer y cais cynllunio hwnnw. Os nad yw Aelod yn siŵr ynghylch materion o'r fath, dylai ofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro neu Uwch Swyddog arall o fewn Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, yn ddelfrydol cyn y cyfarfod.

**4.6** - Os yw Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio'n cefnogi, neu'n gwrthwynebu, cais cyn i'r mater gael ei ystyried yn ffurfiol yn y cyfarfod perthnasol, p'run ai a oes lobio wedi bod ai peidio, gallai ef/hi gael rhywfaint o drafferth i allu hawlio ei fod/bod yn gallu cadw meddwl agored ar y mater a bod yn barod i wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais ar sail ei rinweddau. Os bydd Aelod yn mynegi barn, yna dylid nodi'n glir mai safbwynt ymlaen llaw ydyw ac na fydd mewn sefyllfa i wneud penderfyniad terfynol nes bod y dystiolaeth a'r dadleuon wedi eu hystyried.

**4.7** - Os nad yw aelod o'r pwyllgor wedi cydymffurfio â 5.2, 5.5 neu 5.6 uchod a'i fod/bod wedi penderfynu ymlaen llaw ynglŷn â rhinweddau'r cais, ni ddylai gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais hwnnw.

## 5. Ceisiadau a Gyflwynwyd gan Aelodau a Swyddogion

**5.1** - Bydd ceisiadau cynllunio a gyflwynir gan neu ar ran Aelodau, neu swyddogion sy'n gysylltiedig â'r broses ceisiadau cynllunio, neu berthnasau agos\* i Aelodau neu swyddogion lle mae'r swyddog neu'r Aelod yn gwybod am y cais yn



cael eu penderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio ac nid gan Brif Swyddog, Cynllunio ac Amgylchedd o dan bwerau dirprwyedig.

[\* Y diffiniad o berthynas agos yw gŵr neu wraig, partner, rhiant, plentyn neu frawd neu chwaer].

**5.2** – Bydd Aelod sy'n cael ei effeithio gan gymal 6.1 yn datgan y Cysylltiad personol a'r Cysylltiad sy'n rhagfarnu yn unrhyw un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio pan wneir penderfynu ynglŷn â'r cais, ni fydd yn cymryd unrhyw ran yn y penderfyniad a bydd yn gadael yr ystafell gyfarfod oni bai bod y Pwyllgor Safonau wedi rhoi'r hawl iddo/iddi aros.

**5.3** – Ni fydd y swyddog sy'n cael ei effeithio'n cymryd unrhyw ran yn y drefn o brosesu na wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais.

## 6. Ceisiadau a Gyflwynwyd gan y Cyngor

**6.1** – Mae'n bwysig bod y Cyngor yn cael ei weld yn trin ceisiadau ar gyfer ei ddatblygiad ei hun (neu ddatblygiad sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a pharti arall) ar yr un sail â'r holl geisiadau eraill, yn ogystal â gwneud hynny.

**6.2** – Yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau deddfwriaethol bydd pob cais o'r fath yn agored i'r un broses weinyddol, yn cynnwys ymgynghori, â cheisiadau preifat gan roi ystyriaeth iddynt yn unol â pholisi ac unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill.

## 7. Trafodaethau Cyn Ymgeisio a Gorfodi

**7.1** – Mae cyfarfodydd cyn ymgeisio rhwng swyddogion a darpar ymgeiswyr a thrafodaethau ynghylch torri rheolau cynllunio'n cael eu hannog.

Nod cyfarfodydd o'r fath yw sicrhau datblygiad buddiol a datrys materion a allai fel arall arwain at wrthod caniatâd cynllunio. Fel arfer cynhelir trafodaethau fel hyn ar lefel swyddogion a dylai Aelodau gyfeirio ceisiadau am gyngor o'r fath at swyddogion. Os bydd Aelodau'n dod yn rhan o drafodaethau o'r fath dylent nodi'n glir bod eu safbwyntiau'n bersonol a dros dro. Rhag bod cyfarfodydd o'r fath yn cael eu camddeall:-

- **Bydd yn cael ei wneud yn glir** cyn ac mewn cyfarfodydd o'r fath mai dim ond safbwyntiau personol a dros dro sy'n seiliedig ar y Cynllun Datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill y gellir eu rhoi ac ni ellir gwneud unrhyw ymrwymiad a fyddai'n clymu neu'n amharu mewn ffordd arall ar y Pwyllgor Cynllunio neu unrhyw aelod o'r pwyllgor.
- **Gwneir nodyn** o'r drafodaeth a'i rhoi mewn ffeil a bydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld unwaith y bydd cais wedi'i wneud.

- **Mewn** achosion eithriadol lle bydd cyfarfodydd yn cynnwys Aelodau, trefnir y cyfarfodydd gan swyddogion, ac fe'u mynychir ganddynt.

## 8. Ymweliadau Safle y Pwyllgor Cynllunio

**8.1.1** – Nid yw ymweliadau safle gan y Pwyllgor Cynllunio'n gyfarfodydd lle gwneir penderfyniadau ac nid ydynt yn gyfarfodydd cyhoeddus. Yn eu hanfod, ymarferion canfod ffeithiau ydynt i helpu Aelodau pan fo datblygiad arfaethedig yn anodd ei ddychmygu o'r cynlluniau a'r deunydd ategol. Efallai bod angen ymweliad er mwyn rhoi ystyriaeth ofalus i'r berthynas ag eiddo cyfagos neu gymeriad cyffredinol yr ardal oherwydd graddfa neu ddyluniad y datblygiad.

### 8.2. Cais am Ymweliad Safle

**8.2.1** - Fel arfer gwneir cais am ymweliad safle gan Aelod Ward Lleol mewn ymateb i ymgynghori ar y datblygiad arfaethedig. Rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig (e.e. e-bost) a dylai nodi'n glir beth yw'r rhesymau cynllunio dros yr ymweliad a fydd yn ymddangos ar y rhaglen ar gyfer ymweliadau safle. Mae ymweliadau safle'n gallu bod yn gostus ac achosi oedi, felly mae'n bwysig mai dim ond os oes angen y byddant yn cael eu cynnal, a chyn y pwyllgor. Cynhelir ymweliadau safle'n unol â phenderfyniad Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio neu'n unol â chais gan Aelod Lleol yn cynnwys Aelod Ward arall yr ymgynghorwyd ag ef/hi oherwydd bod y cais yn effeithio'n sylweddol ar y ward arall. Hysbysir pob Aelod Lleol pan drefnir ymweliad safle.

**8.2.2** – Mae enghreifftiau pan na fyddai ymweliad safle fel arfer yn briodol yn cynnwys:

- Materion polisi'n unig neu fod materion o egwyddor dan ystyriaeth
- Bod yr Aelod yn dymuno ystyried anghydfod rhwng cymdogion neu o ran terfynau
- Materion cystadlu
- Colli gwerthoedd eiddo
- Unrhyw faterion eraill nad ydynt yn ystyriaethau cynllunio perthnasol
- Os yw Aelodau eisoes wedi ymweld â'r safle o fewn y 12 mis diwethaf, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol

Os na roddir rheswm cynllunio dros yr ymweliad safle neu os yw'r rheswm am yr ymweliad safle'n un o'r rhai a restrir uchod ni ddylai'r Cadeirydd gynnal yr ymweliad safle.

### 8.3. Trefn a Sut i Gynnal Ymweliad Safle

**8.3.1** – Hysbysir Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a'r Aelod(au) Ward Lleol ymlaen llaw cyn unrhyw ymweliad. Nid yw'r ymweliadau hyn yn gyfarfodydd ffurfiol o'r pwyllgor ac nid oes hawl i'r cyhoedd fod yn bresennol yn yr ymweliad ei hun. Os bydd y cyhoedd yn lobio Aelodau ar eu ffordd yn ôl a blaen o ymweliad safle i gyflwyno dogfennau dylid dweud wrthynt yn hytrach i'w hanfon i'r Adran Gynllunio.

**8.3.2** – Hefyd anfonir rhybudd ymlaen llaw o'r ymweliad safle i'r ymgeisydd neu asiant yn gofyn am fynediad i'r safle ar gyfer Aelodau/swyddogion ar yr amser/dyddiad a nodir a phwyntio allan na chaniateir i'r ymgeisydd/asiant gymryd rhan yn yr ymweliad safle. Ni ddylai unrhyw Aelod â chysylltiad personol ac sy'n rhagfarnu gymryd rhan yn yr ymweliad safle.

**8.3.3** – Bydd y Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Cynllunio i roi amlinelliad byr o'r cais a thynnu sylw at y prif faterion a godwyd gan y cais ac unrhyw fannau amlwg y dylid edrych ar y cais ohonynt. Yna gwahoddir yr Aelod Ward Lleol i siarad, yna gall Aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau a cheisio eglurhad gan swyddogion a fydd yn ymateb. Ni ddylai'r Cadeirydd ganiatáu unrhyw ddatganiad neu drafodaeth yn ymwneud ag egwyddorion a pholisïau sy'n berthnasol i'r datblygiad.

**8.3.4** – Er nad yw ymweliadau safle'n rhan o'r ystyriaeth ffurfiol a roddir i'r cais gan y pwyllgor, mae'r Cod Ymddygiad yn dal yn berthnasol i ymweliadau safle a dylai Aelodau gadw at y canllawiau ar ddatgan Cysylltiad personol.

**8.3.5** – Cedwir cofnod ar ffeil o'r rhai sy'n bresennol yn yr ymweliad safle, ynghyd â nodyn byr o unrhyw bwyntiau a godwyd.

**8.3.6** – Rhag unrhyw amheuaeth mae cyfeiriadau yn yr adran hon at Aelod(au) Lleol yn cynnwys Aelodau wardiau cyfagos os yw'r cais yn effeithio'n sylweddol ar eu ward.

**8.3.7** – Weithiau ni fydd yr ymgeisydd/asiant/perchennog y safle'n caniatáu i Aelodau a swyddogion ymweld â'r safle. Efallai bod rheswm da am hyn, er enghraifft, pe bai rhywun yn cael ei anafu gallent hawlio yn erbyn y perchennog tir. Pan wrthodir mynediad i un neu ragor o Aelodau etholedig, hysbysir y Cadeirydd na ddylai unrhyw Aelod na swyddog fynd ar y tir. Mewn amgylchiadau fel hyn dylid edrych ar y safle o'r tir cyhoeddus agosaf, fel y briffordd gyhoeddus.

**8.3.8** – Yn fyr, mae ymweliadau safle'n:

- **Ymarfer** canfod ffeithiau.
- **Nid ydynt yn rhan** o'r cyfarfod pwyllgor ffurfiol ac felly nid yw'r hawl i'r cyhoedd fod yn bresennol yn berthnasol.
- **Galluogi i** swyddogion dynnu sylw at nodweddion perthnasol.
- **Galluogi i** gwestiynau gael eu gofyn ar y safle er mwyn cael eglurhad. Fodd bynnag, dim ond yn y pwyllgor nesaf y cynhelir trafodaeth am y cais.

## 9. Y Drefn mewn Pwyllgor Cynllunio

**9.1** – Gwneir mwyafrif y ceisiadau cynllunio gan Brif Swyddog, Cynllunio ac Amgylchedd o dan gynllun dirprwyo'r Cyngor. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod mwyafrif y penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd amserol. Tra bod gan Aelodau'r hawl i ofyn i benderfyniadau am geisiadau sy'n effeithio ar eu ward gael eu gwneud gan y Pwyllgor Cynllunio, dylid cyfiawnhau ceisiadau o'r fath drwy nodi'n glir ac yn ysgrifenedig pam fod angen i'r pwyllgor wneud penderfyniad. Fel arfer gwneir hyn ar y ffurflen hysbysu a anfonir at Aelodau.

**9.2** – Bydd swyddogion yn paratoi adroddiadau ysgrifenedig ar bob cais cynllunio a adroddir i'r pwyllgor. O safbwynt bob cais bydd yr adroddiad yn cynnwys, ymysg materion eraill:

- Disgrifiad o'r cais
- Disgrifiad o'r safle
- Ymatebion i ymgynghoriadau a sylwadau swyddogion
- Crynodeb o wrthwynebiadau a/neu gefnogaeth a dderbyniwyd
- Hanes perthnasol y safle
- Polisiâu perthnasol y Cynllun Datblygu
- Canllawiau cynllunio perthnasol lle y bo'n briodol
- Unrhyw ystyriaeth gynllunio berthnasol arall
- Arfarniad gan y Swyddog Achos a fydd yn cynnwys safbwyntiau perthnasol swyddogion eraill yr ymgynghorwyd â nhw yn yr Isadran Gynllunio
- Argymhelliad clir
- Manylion byr am sylwedd unrhyw amodau i'w gorfodi neu;
- Manylion llawn y rhesymau dros wrthod.

**9.3** - Bydd sylwadau diweddar a dderbyniwyd hyd at 5.00 p.m. y diwrnod cyn i'r pwyllgor gyfarfod yn cael eu crynhoi a'u hadrodd ar wahân a'u dosbarthu i Aelodau'n syth cyn dechrau'r cyfarfod.

**9.4** – Bydd y Swyddog Cynllunio'n cyflwyno pob eitem yn fyr gan dynnu sylw at y prif faterion i Aelodau eu hystyried.

**9.5** – Pan fo cais yn cael ei adrodd i'r pwyllgor, bydd y Cadeirydd yn caniatáu sylwadau llafar yn unol â'r protocol ar siarad cyhoeddus cyn i'r pwyllgor drafod y cais.

**9.6** - Pan fo Aelod yn ceisio ac yn sicrhau mwyafrif i ohirio'r cais ar gyfer pwrpas penodol yna ni thrafodir y mater ymhellach nes bydd y cais yn cael ei ail-gyflwyno.

**9.7** – Dylai Aelodau sy'n darllen neu'n cyfeirio yn y pwyllgor at gyfathrebiadau a dderbyniwyd ganddynt sicrhau bod swyddogion yn cael copi ymlaen llaw.

## 10. Penderfyniadau sy'n Groes i Argymhellion Swyddogion

**10.1** – O bryd i'w gilydd bydd aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'n anghytuno â'r cyngor proffesiynol a roddwyd gan Brif Swyddog, Cynllunio ac Amgylchedd. Rhaid i benderfyniadau'r pwyllgor fod yn unol â darpariaethau'r Cynllun Datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi'n wahanol. Os yw Aelodau'n cynnig gwneud penderfyniad sy'n groes i argymhellion swyddogion (boed i gymeradwyo neu wrthod), dylai'r cynigydd amlinellu'r rhesymau dros wneud hynny'n glir. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod y swyddog yn cael cyfle i egluro goblygiadau'r penderfyniad sy'n mynd yn groes i'r argymhelliad, cyn cymryd pleidlais.

**10.2** – Mewn achosion lle mae'r Pwyllgor Cynllunio'n penderfynu am resymau da a dilys i wyro oddi wrth argymhelliad Prif Swyddog, Cynllunio ac Amgylchedd, rhaid i'r pwyllgor bob amser ddiffinio'r rhesymau dros wrthod argymhelliad y swyddog a rhaid cofnodi'r rhesymau hynny yng nghofnodion y cyfarfod.

**10.3** – Yn achos amodau y mae'r pwyllgor wedi penderfynu eu hychwanegu neu ddiwygio, caiff yr union eiriad ei ddirprwyo i Brif Swyddog, Cynllunio ac Amgylchedd ac os yw'n briodol, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor.

**10.4** - Mewn achosion o wrthod bydd y rhesymau'n cael eu datgan yn glir a chytunir arnynt gan Aelodau. Efallai y bydd achosion pan fydd angen i'r swyddogion egluro'r rhesymau dros wrthod naill ai yn y cyfarfod ei hun, mewn e-bost at y cynigydd a'r eilydd, neu drwy adroddiad i gyfarfod dilynol.

**10.5** - Gall cynghorydd cyfreithiol yng nghyfarfod y pwyllgor maes o law atal hysbysiad penderfyniad rhag cael ei gyflwyno nes bod adroddiad gan Brif Swyddog Llywodraethu wedi'i ystyried yn y cyfarfod pwyllgor dilynol. Gallai'r rhesymau am yr adroddiad hwn fod yn bryderon o natur gyfreithiol neu fod Prif Swyddog, Cynllunio ac Amgylchedd yng nghyfarfod y pwyllgor wedi nodi bod y penderfyniad arfaethedig yn achos o wyro sylweddol oddi wrth bolisi cynllunio a bod y swyddog cyfreithiol wedi cytuno maes o law.

## 11. Apeliadau Cynllunio

**11.1** – Mae amrywiaeth eang o wahanol sefyllfaoedd ffeithiol yn ymwneud ag apeliadau. Gellir cael apeliadau yn erbyn diffyg penderfyniad neu yn erbyn cais a wrthodwyd a wnaed o dan bwerau wedi'u dirprwyo i swyddogion neu gan y Pwyllgor Cynllunio, naill ai'n unol ag argymhelliad swyddog neu'n groes i argymhelliad y swyddog. Gellir gwrandao ar apeliadau drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad anffurfiol neu mewn ymchwiliad neu gyfuniad o'r rhain. Gallai'r apêl ymwneud â chais cynllunio mawr neu fach, datblygiad sydd wedi denu llawer o ddiddordeb gan Aelodau a'r cyhoedd neu gais sydd o ddiddordeb cyfyngedig. Oherwydd yr amrywiaeth o amgylchiadau, bydd y ffordd y mae'r Cyngor yn

ymateb i apêl yn benodol i amgylchiadau'r apêl honno. Bydd yr egwyddorion canlynol yn arwain ymateb y Cyngor i bob apêl benodol.

**11.2** – Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cydymffurfio â'r amserlenni o fewn y broses apelio oherwydd gallai methu â bodloni'r amserlenni hyn arwain at ddyfarnu costau yn erbyn y Cyngor ac i'r Cyngor golli'r gallu i amlinellu eu hachos yn briodol.

**11.3** – Bydd y Cyngor yn mabwysiadu dull tîm i ddelio ag apelïadau a bydd Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd er budd y Cyngor, waeth sut y gwnaed y penderfyniad yr apelïwyd yn ei erbyn.

**11.4** – Mae'r penderfyniad p'un ai a yw apêl yn cael ei benderfynu drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad anffurfiol neu ymchwiliad cyhoeddus, yn fater i'r Arolygiaeth Gynllunio ond rhoddir cyfle i'r Cyngor wneud sylwadau ynglŷn â'r ffurf briodol. Bydd Prif Swyddog, Cynllunio ac Amgylchedd yn gwneud sylwadau ar ran y Cyngor ynglŷn â'r ffurf a ddewisir lle y bo'n bosibl ar ôl ymgynghori â'r Aelod(au) lleol.

**11.5** - Yn achos Gwrandawriadau Anffurfiol ac ymchwiliadau, bydd Prif Swyddog, Cynllunio ac Amgylchedd yn penderfynu pwy fydd yn cyflwyno'r achos ar ran y Cyngor ar ôl ymgynghori â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

**11.6** – Os gwnaed y penderfyniad yr apelïwyd yn ei erbyn gan swyddogion o dan bwerau dirprwyedig neu os oedd yn unol ar argymhelliad swyddog, fel arfer bydd yr achos yn cael ei gyflwyno gan swyddogion y Cyngor.

**11.7** – Os gwnaed y penderfyniad gan Aelodau'n groes i argymhelliad swyddogion, byddai presenoldeb un neu fwy o Aelodau'n helpu achos y Cyngor a bydd Prif Swyddog, Cynllunio ac Amgylchedd yn cysylltu ag Aelodau i weld a ydynt ar gael. Bydd swyddogion yn helpu unrhyw Aelod i baratoi ar gyfer yr apêl.

**11.8** - Cysylltir â chynrychiolwyr cyfreithiol allanol a/neu ymgynghorwyr os yw Prif Swyddog, Cynllunio ac Amgylchedd, ar ôl ymgynghori â'r Aelod(au) Lleol a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, yn credu bod hyn yn briodol dan yr amgylchiadau. Un o'r amgylchiadau perthnasol yw'r angen i Swyddogion Cynllunio sy'n aelodau o'r Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref gydymffurfio â'i God Ymddygiad a pheidio â gwneud datganiadau yn eu henw nhw sy'n groes i'w safbwynt proffesiynol dilys.

## **12. Rhwymedigaethau Cynllunio**

**12.1** – Wrth ystyried rhinweddau cais cynllunio unigol, gall y Pwyllgor Cynllunio ystyried unrhyw rwymedigaeth gynllunio a godwyd gyda'r ymgeisydd neu'r asiant ond dylai lunio ei safbwynt yn llwyr ar sail cynnwys y cais a dylai gymryd i



ystyriaeth rwymedigaethau cynllunio a gynigiwyd yn unig i'r graddau eu bod yn angenrheidiol i wneud cais derbyniol o ran cynllunio defnydd tir.

**12.2** – Dylai Aelodau osgoi bod yn rhan o drafodaethau gydag ymgeiswyr, darpar ymgeiswyr, eu hasiantau, perchnogion tir neu bartïon eraill â diddordeb o ran buddiannau, y gellid eu cynnig i'r Cyngor, neu fuddiannau y mae'r Cyngor ei hun yn dymuno eu sicrhau.

## **13. Adolygu Penderfyniadau'n Rheolaidd**

**13.1** – Fel rhan o'r nod i wella'n barhaus ansawdd penderfyniadau cynllunio bydd cyfle i Aelodau ailedrych ar sampl o benderfyniadau cynllunio a weithredwyd. Bydd adolygiadau o'r fath yn gam cadarnhaol i wella ansawdd a chysondeb y drefn o wneud penderfyniadau, gan gryfhau nid yn unig hyder y cyhoedd yn y system gynllunio ond hefyd gan helpu i adolygu polisi cynllunio.

**13.2** – Fel arfer bydd adolygiad o'r fath yn cael ei gynnal yn flynyddol a bydd nodiadau briffio'n cael eu paratoi ar gyfer bob achos. Bydd Grŵp Strategol Cynllunio'n ystyried yr adolygiad yn ffurfiol ac yn penderfynu a oes angen ailystyried unrhyw bolisiau neu arferion.

## **14. Cwynion**

**14.1** – Gellir lleisio unrhyw gŵyn neu broblem sy'n deillio o'r Cod Ymarfer hwn wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, y Swyddog Monitro, Prif Swyddog, Cynllunio ac Amgylchedd neu'r Swyddog Cyfreithiol sy'n bresennol yn y pwyllgor. (Mae gan y Cyngor hefyd system gwyno ffurfiol sy'n cael ei gweithredu, y gellir ei defnyddio os bydd angen).